Cymuned | Cydraddoldeb | Cyfiawnder
Community | Equality | Justice

Cyfraith Gymunedol y Gogledd
North Wales Community Law

Teitl y Swydd:	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol
Contract:	Parhaol. Amser llawn / Rhan-amser neu Rannu Swydd Gweithio Hyblyg / Hybrid (mae angen rhywfaint o bresenoldeb ar y safle).
Yn atebol i:	Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Cyflog Cychwynnol:	£38,000 - £42,000 (pro rata os yw'n rhan amser) yn dibynnu ar brofiad.
Lleoliad:	Conwy, Gogledd Cymru

Cyfle unigryw i gyfreithiwr profiadol sy'n ymroddedig i gyfiawnder cymdeithasol.

Rydym yn chwilio am gyfreithiwr profiadol (3 blynedd o brofiad ôl-gymhwyso) sydd ag arbenigedd mewn ymgyfreitha sifil ac ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol i arwain ein gwaith cyfreithiol.

Mae'r rôl hon yn cynnig cyfle unigryw i'r ymgeisydd cywir adeiladu llwyth achosion strategol sy'n herio anghydraddoldeb ac anghyfiawnder systemig. Gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr Gweithrediadau, sy'n gyfrifol am yr holl waith gweithredol a rheoli contractau, bydd deiliad y swydd yn nodi ac yn cymryd achosion sy'n cael yr effaith fwyaf ar gymunedau yn ein rhanbarth ac yn datblygu'r corff cynyddol o ddeddfwriaeth sy'n seiliedig ar hawliau yng Nghymru.

Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan bobl sydd â phrofiad o ymgyfreitha gyda chymorth cyfreithiol, naill ai ym maes tai neu deulu, a gwybodaeth am gyfraith berthnasol Cymru. Rydym ni'n gwybod efallai na fydd y person iawn yn bodloni ein holl feini prawf, ac rydym ni'n agored i geisiadau gan bobl sydd â'r cymwysterau priodol sy'n wirioneddol frwd dros yr hyn rydym ni'n ei wneud.

Bydd oriau, patrymau gwaith a gweithio o bell yn cael eu trafod gyda'r ymgeisydd llwyddiannus ar sail ei anghenion penodol. Yn ogystal, gallwch ddisgwyl 35 diwrnod o wyliau blynyddol gan gynnwys gwyliau banc (pro rata), gwyliau ychwanegol rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, ymrwymiad i fuddsoddi yn eich datblygiad proffesiynol, cynllun pensiwn cwmni a rhaglen gynhwysfawr o gymorth i weithwyr.

Mae llesiant yn un o werthoedd craidd Cyfraith Gymunedol y Gogledd, ac rydym yn cydnabod ein bod i gyd yn ffynnu pan fydd ein hanghenion yn cael eu diwallu.

Gwybodaeth am Cyfraith Gymunedol y Gogledd

Ein gweledigaeth yw bod gan bawb yng Ngogledd Cymru fynediad at y gwasanaethau a'r arbenigedd sydd eu hangen arnynt i gynnal eu hawliau, i frwydro yn erbyn anghydraddoldeb ac i herio anghyfiawnder.

Mae Cyfraith Gymunedol y Gogledd yn elusen gyfreithiol annibynnol, nid-er-elw sydd wedi ymrwymo i liniaru tlodi, hyrwyddo cydraddoldeb, a helpu pawb i greu cymdeithas decach a mwy cyfiawn. Rydym yn gwneud hyn drwy ddarparu cyngor cyfreithiol am ddim yn y gymuned ar faterion sy'n effeithio ar fywydau pobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru o ddydd i ddydd, gan ddefnyddio'r gyfraith fel cyfrwng ar gyfer newid cymdeithasol, a rhannu ein gwybodaeth a'n sgiliau ag eraill.

Fe wnaethom agor ein drysau yn 2023 ac rydym ni eisoes yn gwneud ein marc, gan gydweithio'n arloesol â grwpiau ar lawr gwlad a sefydliadau cenedlaethol. Gan weithio mewn banciau bwyd, canolfannau cymunedol a llyfrgelloedd, mae ein cyllid grant yn ein galluogi i gynllunio gwasanaethau sy'n cael eu gyrru gan yr hyn sydd ei angen ar ein cleientiaid yn hytrach na thargedau bilio ac elw.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymuno â ni wrth i ni barhau i sefydlu ein proffil yng Nghymru a'r DU, gan hyrwyddo cyfiawnder, atebolrwydd a hawliau pobl yng Ngogledd Cymru sydd ar y cyrion oherwydd tlodi, gwahaniaethu neu anfantais.

Ynglŷn â Gogledd Cymru

Mae Gogledd Cymru yn rhanbarth unigryw gyda thraethau, mynyddoedd, coedwigoedd a llynnoedd i gyd o fewn pellter byr. Mae'r ardal yn elwa o ysgolion da, prisiau tai cymharol isel a hanes diwylliannol cyfoethog ac amrywiol. Cymraeg yw iaith hynaf Prydain ac mae'n ffynnu ar draws gogledd Cymru. Mae record ddeddfwriaethol flaengar Cymru yn cynnig cyfle dihafal i gael effaith barhaol ar gymunedau heb fawr o fynediad at gyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol.

Dyletswyddau:

1. Ymchwilio, nodi ac arwain heriau cyfreithiol strategol sy'n ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau systemig yng Ngogledd Cymru, a chynnal hawliau cyfreithiol pobl leol sy'n wynebu tlodi, anghydraddoldeb ac anghyfiawnder.

2. Goruchwylio a bod yn rheolwr llinell i aelodau eraill y tîm cyfreithiol.

3. Cefnogi eich llesiant eich hun a llesiant eich tîm, ac annog amgylchedd gwaith cadarnhaol.

4. Rhoi cyngor a chynrychiolaeth briodol ac arbenigol ar faterion sy'n ymwneud â thai a / neu deuluoedd, rheoli eich llwyth achosion eich hun a gwneud ceisiadau am gyllid cyhoeddus yn ôl yr angen.

5. Cynrychioli cleientiaid yn y llys sirol a / neu yn y Llys Teulu yn ôl y gofyn.

6. Cysylltu â landlordiaid a chynrychiolwyr partïon eraill, cyfreithwyr, asiantaethau a grwpiau eraill yn ôl y gofyn.

7. Sicrhau bod yr holl waith achos, cyngor a chymorth yn cydymffurfio â gofynion prosesau ac achrediadau'r sefydliad, a, lle caiff ei ariannu'n gyhoeddus, yn cydymffurfio â gofynion yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.

8. Coladu tystiolaeth a gweithio mewn partneriaeth â darparwyr cyngor eraill yn lleol ac yn rhanbarthol i ddylanwadu ar ddatblygiad polisi a deddfwriaeth mewn perthynas â thlodi, anghydraddoldeb a mynediad at gyfiawnder.

9. Ymgysylltu'n weithredol â grwpiau a sefydliadau cymunedol lleol, gan ddod â'n profiad, ein sgiliau a'n gwybodaeth ynghyd â phrofiad, sgiliau a gwybodaeth pobl eraill, a rhannu dysgu lle bynnag y bo modd.

10. Paratoi adroddiadau ar waith y tîm cyfreithiol er gwybodaeth i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, cyllidwyr a rhanddeiliaid eraill, yn ôl y gofyn.

11. Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr.

12. Mynychu cyrsiau hyfforddi priodol a sicrhau eich bod yn darllen cyhoeddiadau perthnasol i gynnal a datblygu arbenigedd proffesiynol.

13. Ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau, nodi cyfleoedd i sicrhau sefydlogrwydd a thwf ar gyfer Cyfraith Gymunedol y Gogledd a newid cadarnhaol ar gyfer cymunedau Gogledd Cymru.

14. Ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau, arwain diwylliant sy'n ymgorffori gwerthoedd y sefydliad, sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth.

15. Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl yr angen.

Manyleb y Person

Hanfodol

- Profiad o ymgyfreitha sifil a / neu ymgyfreitha teulu, gan gynrychioli cleientiaid yn y llysoedd teulu.
- Dealltwriaeth gadarn o Reolau Ymddygiad Proffesiynol yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA), safonau'r Marc Ansawdd Arbenigol (SQM) a Rheolau Cyfrifon y Cyfreithwyr a'r gallu i'w cymhwyso yn ôl yr angen.
- Y gallu i reoli llwyth achosion prysur, gweithio o dan bwysau a chwrdd â therfynau amser.
- Sgiliau trefnu a rheoli amser ardderchog.
- Sgiliau gwrando a chyfathrebu rhagorol, ar lafar ac ar bapur.
- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol â grŵp cleientiaid y sefydliad.
- Profiad o weithio fel rhan o dîm a gwaith aml-asiantaeth.
- Ymrwymiad i rannu dysgu, sgiliau a gwybodaeth.
- Dealltwriaeth ac ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a'i berthnasedd i gyngor cyfreithiol.
- Ymrwymiad cryf i weledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd Cyfraith Gymunedol y Gogledd.
- Sgiliau TG rhagorol.

Dymunol

- Profiad o weithio gyda chymunedau/unigolion sydd wedi'u hymyleiddio, wedi'u heffeithio gan gamwahaniaethu a/neu o weithio gydag asiantaethau yn y sector gwirfoddol neu statudol mewn maes gwaith perthnasol.
- Profiad o ymarfer ym maes cyfraith tai a digartrefedd a / neu brofiad o ddiwallu anghenion cyfreithiol goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Profiad o waith cymorth cyfreithiol (gan gynnwys gwaith ardystiedig), a dealltwriaeth o optimeiddio incwm cymorth cyfreithiol.
- Profiad o ddarparu eiriolaeth (e.e. Cynllun Dyletswydd y Llysoedd yng nghyswllt Meddiannu Tai).
- Profiad amlwg o weithdrefnau bilio, bodloni targedau ariannol a gofynion cofnodi amser gan ddefnyddio systemau rheoli achosion.
- Profiad o weithio gyda systemau TG, gan gynnwys CCMS, SharePoint a gweithio di-bapur.
- Dealltwriaeth o weithio mewn partneriaeth.
- Profiad o weithio ar brosiectau a ariennir gan grantiau.
- Profiad o weithio fel rheolwr llinell.
- Y gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg.

I Ymgeisio

Anfonwch neges e-bost at recruitment@nwcl.cymru, gyda theitl y swydd yn y llinell pwnc, gan atodi:

- CV cyfredol
- Llythyr eglurhaol*
- Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal wedi'i llenwi

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 9am ddydd Gwener 7 Mehefin.

Cynhelir y cyfweliadau o bell yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ddydd Llun 10 Mehefin.

Rydym yn cydnabod gwerth safbwyntiau amrywiol yn ein gwaith ac yn annog ceisiadau gan bobl o bob cefndir, cymuned, hunaniaeth a phrofiad, gan gynnwys y rheini sydd â phrofiad personol o'r anghydraddoldebau a'r anghyfiawnderau rydym yn ceisio mynd i'r afael â nhw.

Os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch chi fel rhan o'r broses recriwtio, rhowch wybod i ni drwy anfon neges e-bost at recruitment@nwcl.cymru.

*Strwythurwch y llythyr eglurhaol fel eich bod yn rhoi atebion i'r cwestiynau canlynol:

1) Disgrifiwch sut mae eich sgiliau, eich rhinweddau a'ch profiadau yn bodloni'r gofynion a nodir yn y Disgrifiad Swydd. Lle bo'n bosibl, rhowch enghreifftiau (a allai fod o gyd-destun proffesiynol, gwirfoddol neu bersonol) i ddangos y sgiliau, y rhinweddau a'r profiadau hynny. [500 gair ar y mwyaf]

2) Dywedwch wrthym sut rydych wedi defnyddio'r gyfraith a / neu weithredu cymunedol i frwydro yn erbyn anghydraddoldeb a herio anghyfiawnder yn eich cymuned, neu sut yr hoffech ei defnyddio. Lle bo'n bosibl, cysylltwch eich ateb i'ch profiad blaenorol, a allai fod mewn gwaith cyflogedig neu wirfoddol, neu ymchwil yr ydych wedi'i gynnal. [250 gair ar y mwyaf]

I gael rhagor o wybodaeth a sgwrs anffurfiol am y rôl, cysylltwch â Katherine Adams ar 01492 484802.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.